Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Erthygl 16 o Brotocol Gogledd Iwerddon
## Hysbysiad hwylus

Tachwedd 2021




ymchwil.senedd.cymru/

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru/**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6472**
E-bost: **Sara.Moran@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2021**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Erthygl 16 o Brotocol Gogledd Iwerddon
## Hysbysiad hwylus

Tachwedd 2021

**Awdur:**
Sara Moran

# Cynnwys

**1. Cefndir ....................................................................................1**

Beth yw Protocol Gogledd Iwerddon? ........................................................1

Beth yw'r broblem? ..................................................................................1

Pa wiriadau sydd ar waith rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon? ...................................................................................1

Sut mae'r DU a'r UE yn trafod y Protocol? ..............................................2

**2. Erthygl 16 ..............................................................................3**

Erthygl 16: yn llawn ..................................................................................4

Atodiad 7 ....................................................................................................4

Atodiad 7: y weithdrefn ..............................................................................4

Atodiad 7: yn llawn......................................................................................5

**3. Erthygl 16: proses ddomestig.................................................7**

Datganoli .....................................................................................................7

**4. Newidiadau posibl i'r Protocol ............................................9**

Erthygl 16: llwybr i aildrafod?....................................................................9

Cynigion y DU..............................................................................................9

Cynigion yr UE............................................................................................10

**5. Gweithdrefn datrys anghydfodau y Cytundeb Ymadael .......................................................12**

# 1. Cefndir

## Beth yw Protocol Gogledd Iwerddon?

Mae'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon yn rhan o **Gytundeb Ymadael** y DU-UE, sy'n gosod telerau ymadawiad y DU â'r UE. Cyfeirir ato'n aml fel Protocol Gogledd Iwerddon ("y Protocol").

Mae'r Protocol yn nodi sut y bydd y DU a'r UE yn rheoli'r ffin rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon, sy'n Aelod-wladwriaeth o'r UE. Daethpwyd i gytundeb yn hwyr cyn i'r DU adael yr UE, ac mae'n darparu bod Gogledd Iwerddon:

- yn parhau i fod yn rhan o diriogaeth tollau'r DU a chytundebau masnach y DU, ond
- mae'n gorfod dilyn rheolau tollau'r UE ar gyfer nwyddau sy'n symud i mewn / allan o'r UE a rhai rheolau eraill Marchnad Sengl yr UE.

Y tu allan i'r UE, mae'r DU yn gosod ei rheolau rheoleiddio a thollau ei hun sy'n wahanol i reolau'r UE.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid gwirio rhai nwyddau sy'n symud rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a rhoi rheolaethau ar waith i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheolau'r UE. Os ydynt yn cydymffurfio â'r rheolau, gallant fynd i mewn i Ogledd Iwerddon a symud ymlaen i Iwerddon, a symud yn rhydd o amgylch yr UE wedi hynny.

## Beth yw'r broblem?

Nid yw'r Protocol ar waith yn llawn eto oherwydd bod y DU a'r UE yn anghytuno ynghylch sut y dylai weithio. Maent yn anghytuno ynghylch rhai gweithdrefnau, megis:

- pa wiriadau a rheolau ddylai fod yn gymwys i nwyddau sy'n dod i mewn neu sy'n cael eu gwerthu yng Ngogledd Iwerddon;
- beth ddylai'r gofynion fod ar gyfer nwyddau sy'n dod i Ogledd Iwerddon o Brydain Fawr y bwriedir iddynt fod ar gyfer marchnad Gogledd Iwerddon yn unig.

## Pa wiriadau sydd ar waith rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon?

O ganlyniad i'r anghytundeb rhwng y DU a'r UE, nid yw rhai nwyddau wedi bod yn destun gwiriadau llawn eto oherwydd:

1. mae'r UE a'r DU wedi cytuno i ohirio cyflwyno rhai gwiriadau (gelwir yr oedi i wiriadau llawn yn "gyfnodau gras"); ac
2. mae'r DU **wedi gohirio rhai gwiriadau yn unochrog** er mwyn rhoi mwy o amser ar gyfer trafodaethau gyda'r UE ac i roi sicrwydd a sefydlogrwydd i fusnesau tra byddant yn digwydd.

Roedd hyn yn cynnwys rheolau ar gadwyni cyflenwi archfarchnadoedd, cigoedd wedi'u hoeri, parseli a rhai meddyginiaethau. Mae Prifysgol Queens Belfast wedi cynhyrchu **llinell amser** sy'n dangos ymestyniad y cyfnodau gras hyn.

Ar 14 Medi 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU **amserlen newydd** ar gyfer cyflwyno rheolaethau mewnforio llawn ar nwyddau a fewnforir o'r UE i'r DU.

## Sut mae'r DU a'r UE yn trafod y Protocol?

Mae'r DU a'r UE yn cyd-gadeirio **Cyd-bwyllgor y Cytundeb Ymadael**, sy'n goruchwylio'r broses o'i weithredu.

Cynrychiolir y DU gan yr Arglwydd David Frost, y Gweinidog Gwladol yn Swyddfa'r Cabinet.

Cynrychiolir yr UE gan yr Is-lywydd Maroš Šefčovič o'r Comisiwn Ewropeaidd.

Mae Llywodraeth Cymru **wedi gwneud cais i fod yn bresennol** pan drafodir materion sy'n ymwneud â'r Protocol. Ar 23 Tachwedd 2021, cadarnhaodd y Prif Weinidog fod y **cais hwn wedi'i wrthod**.

# 2. Erthygl 16

Mae Erthygl 16 o'r Protocol yn caniatáu i'r DU a'r UE gymryd mesurau diogelu mewn achosion pan fo'r Protocol yn arwain at anawsterau, neu at **ddargyfeiriadau masnach**. Os yw'r mesurau diogelu yn achosi anghydbwysedd pellach, gall y DU neu'r UE ymateb gyda mesurau ail-gydbwyso. Mae Atodiad 7 o'r Protocol yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn ar gyfer mesurau diogelu ac ail-gydbwyso.

Prif bwyntiau Erthygl 16 yw:

**Erthygl 16(1)**

- Gall y DU a'r UE yn gymryd camau diogelu unochrog i unioni sefyllfaoedd lle mae'r Protocol yn arwain at

  *"anawsterau economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol difrifol sy'n debygol o barhau, neu at ddargyfeiriadau masnach."*

- Mae mesurau diogelu yn gyfyngedig. Rhaid iddynt fod:
  - **i.** yn briodol,
  - **ii.** ac wedi'u cyfyngu o ran eu cwmpas a'u hyd i'r hyn sy'n gwbl angenrheidiol i unioni'r sefyllfa, a
  - **iii.** rhaid iddynt gael eu blaenoriaethu er mwyn amharu cyn lleied ag sy'n bosib ar y Protocol yn gyffredinol.

**Erthygl 16(2)**

- Os yw'r mesurau diogelu yn creu anghydbwysedd rhwng yr hawliau a'r rhwymedigaethau o dan y Protocol, gall y DU neu'r UE gymryd camau ail-gydbwyso mewn ymateb.
- Mae mesurau ail-gydbwyso yn gyfyngedig. Rhaid iddynt fod:
  - **i.** yn gymesur
  - **ii.** yn gwbl angenrheidiol i unioni'r anghydbwysedd, a
  - **iii.** rhaid iddynt gael eu blaenoriaethu er mwyn amharu cyn lleied ag sy'n bosib ar y Protocol yn gyffredinol.

### Erthygl 16(3)

Rhaid cymryd camau diogelu ac ail-gydbwyso drwy ddilyn y weithdrefn a nodir yn Atodiad 7 i'r Protocol. Ceir eglurhad ynghylch Atodiad 7 yn yr adran nesaf.

## Erthygl 16: yn llawn

**Diogelu**

1. Os bydd cymhwyso'r Protocol hwn yn arwain at anawsterau economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol difrifol sy'n debygol o barhau, neu at ddargyfeiriadau masnach, gall yr Undeb neu'r Deyrnas Unedig gymryd camau diogelu priodol unochrog. Cyfyngir ar fesurau diogelu o'r fath o ran eu cwmpas a'u hyd i'r hyn sy'n gwbl angenrheidiol i unioni'r sefyllfa. Rhoddir blaenoriaeth i fesurau o'r fath a fydd yn tarfu leiaf ar weithrediad y Protocol hwn.
2. Os bydd mesur diogelu a gymerir gan yr Undeb neu'r Deyrnas Unedig, yn ôl fel y digwydd, yn unol â pharagraff 1 yn creu anghydbwysedd rhwng yr hawliau a'r rhwymedigaethau o dan y Protocol hwn, gall yr Undeb neu'r Deyrnas Unedig, yn ôl fel y digwydd, gymryd unrhyw fesurau ail-gydbwyso cymesur sy'n gwbl angenrheidiol i unioni'r anghydbwysedd. Rhoddir blaenoriaeth i unrhyw fesurau o'r fath a fydd yn tarfu leiaf ar weithrediad y Protocol hwn.
3. Bydd mesurau diogelu ac ail-gydbwyso a gymerir yn unol â pharagraffau 1 a 2 yn cael eu llywodraethu gan y gweithdrefnau a nodir yn Atodiad 7 i'r Protocol hwn.

## Atodiad 7

Mae Atodiad 7 yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn gan y DU neu'r UE wrth roi Erthygl 16 mewn grym. Mae'r weithdrefn yn berthnasol i fesurau diogelu ac ail-gydbwyso [pwynt 6].

## Atodiad 7: y weithdrefn

**Cam 1:** Os yw'r DU neu'r UE yn ystyried defnyddio mesurau diogelu o dan Erthygl 16, rhaid iddynt hysbysu'r parti arall ar unwaith drwy'r Cyd-bwyllgor a darparu'r holl wybodaeth berthnasol.

**Cam 2**: Ar ôl yr hysbysiad hwn, rhaid i'r DU a'r UE gynnal ymgynghoriadau yn y Cyd-bwyllgor ar unwaith i ddod o hyd i ateb.

**Cam 3**: Ni ellir defnyddio mesurau diogelu tan 1 mis ar ôl yr hysbysiad i'r Cyd-bwyllgor, a grybwyllir yng Ngham 1 uchod. **Mae eithriadau pwysig i hyn:**

> **Eithriad 1:** Os yw'r broses ymgynghori wedi dod i ben yn gytûn yn gynt nag 1 mis ar ôl yr hysbysiad, gellir defnyddio'r mesurau y cytunwyd arnynt yn gynt;
>
> **neu**
>
> **Eithriad 2:** Mewn amgylchiadau eithriadol sy'n gofyn am weithredu brys cyn y gellir eu trafod yn y Cyd-bwyllgor, gall y DU neu'r UE gymhwyso mesurau diogelu ar unwaith ("ar unwaith"). Dim ond mesurau sy'n gwbl angenrheidiol i unioni'r sefyllfa a ganiateir, a rhaid hysbysu'r Cyd-bwyllgor ar unwaith.

**Cam 4**: Bob tri mis, rhaid i'r Cyd-bwyllgor adolygu'r mesurau diogelu a gymerwyd (neu'n gynt, ar gais y DU neu'r UE). Rhaid cynnal ymgynghoriad o'r fath gyda'r bwriad o naill ai:

i. diddymu'r mesurau cyn y dyddiad y bwriedir iddynt ddod i ben; neu
ii. gyfyngu ar gwmpas eu cymhwysiad.

## Atodiad 7: yn llawn

1. Os yw'r Undeb neu'r Deyrnas Unedig yn ystyried cymryd camau diogelu o dan Erthygl 16(1) o'r Protocol hwn, bydd, yn ddi-oed, yn hysbysu'r Undeb neu'r Deyrnas Unedig, yn ôl fel y digwydd, drwy'r Cyd-bwyllgor, a bydd yn darparu'r holl wybodaeth berthnasol.
2. Bydd yr Undeb a'r Deyrnas Unedig yn cynnal ymgynghoriadau ar unwaith yn y Cyd-bwyllgor gyda'r bwriad o ddod o hyd i ateb sy'n dderbyniol i bawb.
3. Ni chaiff yr Undeb na'r Deyrnas Unedig, yn ôl fel y digwydd, gymryd camau diogelu nes bod 1 mis wedi mynd heibio ar ôl dyddiad yr hysbysiad o dan bwynt 1, oni bai fod y weithdrefn ymgynghori o dan bwynt 2 wedi'i chwblhau cyn i derfyn y wladwriaeth ddod i ben. Pan fo amgylchiadau eithriadol sy'n gofyn am weithredu ar unwaith yn eithrio archwiliad ymlaen llaw, gall yr Undeb neu'r Deyrnas Unedig, yn ôl fel y digwydd, gymhwyso ar unwaith y mesurau diogelu sy'n gwbl angenrheidiol i unioni'r sefyllfa.

4. Bydd yr Undeb neu'r Deyrnas Unedig, yn ôl fel y digwydd, yn ddi-oed, yn hysbysu'r Cyd-bwyllgor ynghylch y mesurau a gymerwyd, a bydd yn darparu'r holl wybodaeth berthnasol.
5. Bydd y mesurau diogelu a gymerir yn destun ymgynghoriadau yn y Cyd-bwyllgor bob 3 mis o'r dyddiad y cânt eu mabwysiadu gyda'r bwriad o'u diddymu cyn y dyddiad dod i ben a ragwelir, neu i gyfyngu ar gwmpas eu cymhwysiad. Gall yr Undeb neu'r Deyrnas Unedig, yn ôl fel y digwydd, ofyn i'r Cyd-bwyllgor adolygu mesurau o'r fath ar unrhyw adeg.
6. Bydd pwyntiau 1 i 5 yn gymwys, mutatis mutandis, i fesurau ail-gydbwyso y cyfeirir atynt yn Erthygl 16(2) o'r Protocol hwn.

# 3. Erthygl 16: proses ddomestig

Mae Arglwydd Frost o Lywodraeth y DU wedi dweud ei fod yn disgwyl i is-ddeddfwriaeth gael ei defnyddio i weithredu'r camau a gymerwyd o dan Erthygl 16. Mae eraill yn anghytuno, ac yn dadlau y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol. Bydd rôl y llywodraethau a'r deddfwrfeydd datganoledig wrth weithredu Erthygl 16 yn dibynnu ar sut y cânt eu gweithredu gan Lywodraeth y DU.

Ar 26 Hydref 2021, dywedodd yr Arglwydd Frost wrth **Bwyllgor Materion yr UE Tŷ'r Arglwyddi** ei fod yn disgwyl y gellid defnyddio is-ddeddfwriaeth i weithredu'r camau a gymerwyd o dan Erthygl 16:

> Simplifying massively, there is a provision in the 2021 Withdrawal Act that gives direct effect to a European Communities Act-like provision that gives direct effect to the Protocol; therefore, it also gives direct effect to Article 16, because that is part of the Protocol.
>
> But I think you probably would still want some secondary legislation, so that there was doubt about the intention of the Article 16 action and to make sure that the UK legal order was completely clear and that we knew where things stood. That is my expectation at this point.

Fodd bynnag, mae eraill yn dadlau y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol.

Er enghraifft, mae **George Peretz QC** wedi nodi sut mae cyfyngiadau domestig yn cyfyngu'n ddifrifol ar yr opsiynau sydd ar gael i Lywodraeth y DU wrth lywio llwybr ymlaen sy'n osgoi torri'r Cytundeb Ymadael. Mae'n dod i'r casgliad a ganlyn:

> …if as a matter of domestic law the UK government wishes to do anything (whether executive action or omission or subordinate legislation) that is inconsistent with the Protocol, it can do so only after persuading Parliament to pass an Act that, in words visible from outer space, modifies, or expressly allows the government to modify, section 7A. If it fails to get that cover – and the political difficulties in getting it are obvious – then any such act, omission, or legislation would have to be declared unlawful, or quashed, by a domestic court.

## Datganoli

Os a hyd nes y bydd Llywodraeth y DU yn penderfynu rhoi Erthygl 16 mewn grym, mae rôl a gofynion y llywodraeth a'r deddfwrfeydd datganoledig yn parhau i fod yn ansicr.

Mae gan Lywodraethau y DU a Llywodraeth Cymru bwerau i weithredu'r Protocol gan ddefnyddio pwerau penodol a roddwyd iddynt gan EUWA18 a Deddf yr UE (Cytundeb Ymadael) 2020 ("EUWAA20") sy'n darparu nifer o lwybrau posibl.

Yn y cyfamser, mae'r **Prif Weinidog wedi ei gwneud yn glir** y byddai sbarduno Erthygl 16 yn "gwneud sefyllfa anodd yn waeth, nid yn well". Ychwanegodd:

> A larger percentage of our exports goes to the European Union than any other part of the United Kingdom.
>
> We will be particularly badly affected by any deterioration in those trading relationships, and that's why we have a direct Welsh interest in seeing that the triggering of Article 16 is avoided.

# 4. Newidiadau posibl i'r Protocol

Mae'r DU wedi galw am aildrafod y Protocol, ac mae'r UE wedi dweud na fydd yn gwneud hynny. Yn hytrach, mae'r UE wedi cytuno i geisio canfod atebion drwy drafodaethau dwys, sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Mae'r DU a'r UE ill dau wedi cyflwyno cynigion i seilio eu trafodaethau arnynt.

## Erthygl 16: llwybr i aildrafod?

Nid yw erthygl 16 yn darparu ar gyfer aildrafod na gwneud newidiadau parhaol i'r Protocol. Mae academyddion wedi dangos sut mae ei hiaith yn cyfeirio at fesurau dros dro a gynlluniwyd i ddatrys problemau, sydd i'w hadolygu bob 3 mis.

Dywed **Yr Athro Robert Howse** o Ysgol y Gyfraith Prifysgol Efrog Newydd nad yw Erthygl 16:

> yn fath o ddarpariaeth a gynlluniwyd i sbarduno aildrafod na hyd yn oed wneud addasiadau parhaol i ymrwymiadau neu fecanweithiau penodol yn y Protocol.

Mae'r DU a'r UE yn trafod sut i symud ymlaen. Mae'r ddau wedi cyhoeddi eu cynigion sy'n nodi atebion posibl, a grynhoir isod.

## Cynigion y DU

Ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU **bapur gorchymyn** a oedd yn nodi ei farn nad yw'n bosibl gweithredu'r Protocol yn llawn ar ei delerau presennol. Mae'r papur yn galw am ail-drafod rhai o'i ofynion.

Mae'r papur gorchymyn yn nodi barn y DU bod y materion cymdeithasol ac economaidd presennol a achosir gan weithrediad y Protocol mor ddifrifol fel y gallent gyfiawnhau'r DU yn rhoi Erthygl 16 mewn grym.

**Mae'r papur gorchymyn yn nodi y byddai'n well gan y DU aildrafod rhai o'i delerau yn hytrach na rhoi Erthygl 16 mewn grym.** Ym mharagraff 36 nodir fel a ganlyn:

> Yn hytrach na defnyddio Erthygl 16, byddai'n well gennym ddod o hyd i lwybr cydsyniol.

Dyma rai o alwadau allweddol Llywodraeth y DU:

- **Dileu rôl Llys Cyfiawnder Ewrop**, a dywedir mai diben hyn fyddai 'normaleiddio sail llywodraethu'r Protocol fel nad yw'r berthynas rhwng y DU a'r UE yn cael ei phlismona yn y pen draw gan sefydliadau'r UE gan gynnwys y Llys Cyfiawnder' a rhoi system gymrodeddu ryngwladol yn ei le;
- **Dileu'r "beichiau" ar fasnach mewn nwyddau,** fel bod prosesau tollau ac archwiliadau iechydol a ffytoiechydol (SPS) llawn ddim ond yn gymwys i nwyddau sydd i fod ar gyfer yr UE;
- **Disodli'r broses o gymhwyso rheolau rheoli cymorthdaliadau'r UE** (o dan Erthygl 10 ac Atodiad 5 o'r Protocol) gyda phrosesau gwell newydd ar gyfer unrhyw gymorthdaliadau ar raddfa sylweddol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â Gogledd Iwerddon. Rhaid i Erthygl 10 ac Atodiad 5 sy'n berthnasol i unrhyw gymorthdaliadau yn y DU sy'n effeithio ar fasnach a chymorthdaliadau Gogledd Iwerddon a'r Undeb Ewropeaidd dros swm penodol gael eu cymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd;
- **I Ogledd Iwerddon gael mynediad 'arferol' at** nwyddau o weddill y DU;
- Cyflwyno "trefniadau eithriadol" ar gyfer **rhannu data masnach a chydweithredu**;
- Deddfu i **atal allforwyr Gogledd Iwerddon rhag allforio nwyddau i Iwerddon nad ydynt yn bodloni safonau'r UE**.

**Ymatebodd yr UE yn wreiddiol** i'r papur gorchymyn gan ddatgan y dylid parhau i drafod y manylion technegol o ran sut i weithredu'r Protocol yn ymarferol, ond na fyddai'n aildrafod ei delerau. **Ym mis Medi, nododd** ei fod yn gobeithio dod o hyd i ateb i'r materion parhaus erbyn diwedd y flwyddyn.

## Cynigion yr UE

Ar 13 Hydref, cyhoeddodd **Comisiwn yr UE gynigion anneddfwriaethol** sydd wedi'u cynllunio i symleiddio'r gweithdrefnau o dan Brotocol Gogledd Iwerddon:

Mae'r cynigion yn galw am gytuno ar ateb parhaol ar y cyd cyn gynted â phosibl.

Mae'r UE wedi dweud dro ar ôl tro na fydd yn aildrafod y Protocol, ac felly mae'n cynnig y **newidiadau a ganlyn** fel man cychwyn ar gyfer trafodaethau dwys â'r DU dros yr wythnosau nesaf:

**iii.** Ar gyfer diogelwch bwyd a rheolau ffytoiechydol (mesurau i amddiffyn bodau dynol, anifeiliaid a phlanhigion rhag afiechydon, plâu neu halogion):

Mae'r Comisiwn yn cynnig ateb pwrpasol, a fydd yn arwain at tua 80 y cant yn llai o wiriadau. Mae hyn yn dibynnu ar p'un a fydd y DU yn cwblhau gwaith adeiladu ar safleoedd rheoli ffiniau newydd, ymhlith mesurau eraill. Cafodd tri o bwyllgorau'r Senedd **ohebiaeth** rhwng David Frost a Llywodraeth Cymru yn ddiweddar, a oedd yn disgrifio eu gwaith adeiladu ar safleoedd rheoli ffiniau ym mhorthladdoedd Cymru fel 'un o'r rhaglenni cyflenwi seilwaith mwyaf a mwyaf cymhleth y mae Llywodraeth Cymru yn ymwneud ag ef'.

**iv.** Ar gyfer **tollau:** Bod y Comisiwn yn cynnig hyblygrwydd i hwyluso'r gwaith o symud nwyddau o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, gan ddatgan y byddai hynny'n arwain at 50 y cant yn llai o waith papur. Disgrifir hyn fel llwybr cyflym ('express lane').

**v.** Ar gyfer **meddyginiaethau:** Bod y Comisiwn yn cynnig cyflenwad diogel di-dor hirdymor o feddyginiaethau sy'n symud o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon. Dywed yr UE fod angen trafodaethau pellach.

**vi.** Ar **Lywodraethu:** Bod y Comisiwn yn cynnig gwell ymgysylltiad â rhanddeiliaid ac awdurdodau Gogledd Iwerddon.

# 5. Gweithdrefn datrys anghydfodau y Cytundeb Ymadael

Os bydd anghydfod yn codi rhwng y DU a'r UE ynghylch y Cytundeb Ymadael, gan gynnwys Protocol Gogledd Iwerddon, mae'r cytundeb yn cynnwys ei weithdrefn datrys anghydfodau ei hun, a nodir yn Nheitl III o Ran Chwech. Ceir crynodeb o bob erthygl isod.

Mae arbenigwyr, **gan gynnwys yr Athro Rob Howse a'r Athro Catherine Barnard**, yn cytuno nad yw geiriad Erthygl 16 yn ei heithrio rhag bod yn ddarostyngedig i'r mecanwaith datrys anghydfodau cyffredinol.

**Erthygl 167: Cydweithredu**

Rhaid i'r DU a'r UE:

> bob amser ymdrechu i gytuno ar ddehongliad a'r modd y caiff y Cytundeb hwn ei weithredu, a byddant yn gwneud pob ymdrech, drwy gydweithredu ac ymgynghoriadau, i ddod i benderfyniad sy'n foddhaol i'r ddwy ochr ynghylch unrhyw fater a allai effeithio ar ei weithrediad.

**Erthygl 168: Cyfyngu**

Mae erthygl 168 yn gymal 'cyfyngu'. Mae hyn yn golygu, ar gyfer anghydfodau sy'n ymwneud â'r Cytundeb Ymadael, fod y DU a'r UE yn cytuno i ddilyn gweithdrefn datrys anghydfodau y Cytundeb Ymadael ei hun yn unig (yn hytrach na thrwy lys, neu dribiwnlys, er enghraifft).

**Erthygl 169: Ymgynghoriadau a chyfathrebu o fewn y Cyd-bwyllgor**

Bydd y DU a'r UE yn ceisio datrys anghydfodau drwy ymgynghori yn y Cyd-bwyllgor, sef y corff sy'n goruchwylio'r broses o weithredu a chymhwyso'r Cytundeb Ymadael. Yn bwysig, rhaid i Erthygl 169 gael ei gweithredu "yn ddidwyll" a chyda'r nod o ddod i ateb y cytunwyd arno gan y ddwy ochr.

**Gweithredu yn ddidwyll: eglurhad**

Mae gweithredu "yn ddidwyll" yn egwyddor gyffredinol cyfraith ryngwladol ac mae'n ffurfio Erthygl 26 o Gonfensiwn Fienna 1969 ar y Gyfraith Cytuniadau (1969). Mae'n ei gwneud yn ofynnol i bartïon gytuniadau gyflawni eu dyletswyddau'n ddidwyll. Mae'n nodwedd gyffredin mewn cytundebau rhyngwladol.

Er enghraifft, mae Erthygl 5 o'r Cytundeb Ymadael yn gosod dyletswydd gyffredinol ar y DU a'r UE i gynorthwyo ei gilydd i gyflawni tasgau sy'n deillio o'r Cytundeb gyda pharch at y naill a'r llall ac yn ddidwyll.

Er mwyn cynnal ymgynghoriadau, rhaid i'r DU neu'r UE roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Cyd-bwyllgor a rhaid i bob gohebiaeth/hysbysiad rhwng y DU a'r UE ynghylch yr anghydfod gael ei wneud yn y Cyd-bwyllgor.

**Erthygl 170: Dechrau'r broses gymrodeddu**

Os na chytunir ar ateb o fewn 3 mis i'r hysbysiad ysgrifenedig a nodir yn Erthygl 169 **neu** os yw'r ddau ochr yn cytuno i wneud hynny'n gynt, gall y DU neu/a'r UE ofyn i banel cymrodeddu gael ei sefydlu.

Rhaid i'r cais:

- gael ei wneud yn ysgrifenedig i'r Cyd-bwyllgor ac i Swyddfa Ryngwladol y Llys Cymrodeddu Parhaol (PCA);
- nodi pwnc yr anghydfod sydd i'w ddwyn gerbron y panel cymrodeddu; a
- chrynhoi'r dadleuon cyfreithiol i gefnogi'r cais

**Y Llys Cymrodeddu Parhaol: eglurhad**

Mae'r Llys Cymrodeddu Parhaol, a sefydlwyd gan gytuniad ym 1899, yn sefydliad rhynglywodraethol sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau datrys anghydfodau i'r gymuned ryngwladol.

Mae'r PCA yn darparu cefnogaeth weinyddol mewn cymrodeddau rhyngwladol sy'n ymwneud â chyfuniadau amrywiol o wladwriaethau, endidau'r wladwriaeth, sefydliadau rhyngwladol a phartïon preifat.

**Erthygl 171: Sefydlu panel cymrodeddu**

**a.** Cyfansoddiad

Bydd y panel cymrodeddu yn cynnwys pum aelod.

Cyn diwedd y cyfnod pontio, gofynnwyd i'r Cyd-bwyllgor lunio rhestr o 25 o bobl i wasanaethu fel aelodau o banel cymrodeddu. Cynigiodd y DU a'r UE 10 o bobl, a chynigiwyd 5 unigolyn ar y cyd i weithredu fel cadeirydd. **Lluniodd y Cyd-**

**bwyllgor y rhestr** ar 22 Rhagfyr 2020.

**b.** Proses

Bydd y panel cymrodeddu yn cael ei sefydlu o fewn 15 diwrnod ar ôl y cais ar gyfer ei sefydlu.

Bydd y DU a'r UE yn enwebu dau aelod yr un.

Bydd y cadeirydd yn cael ei enwebu drwy gonsensws gan aelodau'r panel o restr ar y cyd y DU a'r UE o 5 cadeirydd posibl. Os na all aelodau'r panel gytuno ar gadeirydd o fewn y terfyn amser 15 diwrnod uchod, gall y DU neu'r UE ofyn i Ysgrifennydd Cyffredinol y Llys Cymrodeddu Parhaol ddewis cadeirydd ar hap o'r rhestr o fewn 5 diwrnod i'r cais. Gall cynrychiolwyr o'r DU a'r UE fod yn bresennol yn ystod y detholiad.

Mae'r is-adran sy'n weddill o Erthygl 171 yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn os bydd y DU a'r UE yn methu â sefydlu'r rhestr o bobl i wasanaethu ar y panel cymrodeddu (Erthygl 171 (8) a (9)).

**Erthygl 172: Rheolau'r weithdrefn**

Mae'r weithdrefn datrys anghydfodau ei hun wedi'i nodi yn Rhan A o Atodiad IX, a fydd yn cael ei hadolygu'n barhaus gan y Cyd-bwyllgor ac y gall ei diwygio.

**Erthygl 181: Aelodau panel cymrodeddu**

Rhaid i aelodau'r panel cymrodeddu gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad a geir yn Rhan B o Atodiad IX, y gall y Cyd-bwyllgor ei ddiwygio.

Mae aelodau hefyd yn ddiogel rhag achosion cyfreithiol yn y DU a'r UE mewn perthynas â gweithredoedd a gyflawnir ganddynt wrth arfer eu swyddogaethau ar y panel cymrodeddu hwnnw.